Ffydd y Swyddog Milwrol Rhufeinig

Mathew 8: 5-13, Luc 7: 2-9

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Mathew 8: 5-13, Luc 7: 2-9		
1	Roedd Iesu yn Capernaum.		
2	Roedd gan swyddog milwrol Rhufeinig was oedd yn gorwedd yn ei wely wedi ei barlysu. Roedd e'n dioddef yn ofnadwy. Roedd e'n sâl ac ar fin marw.		
3	Roedd y swyddog milwrol Rhufeinig wedi adeiladu synagog yn Capernaum, ac roedd yn caru'r Iddewon. Roedd e wedi clywed am Iesu ac yn credu y gallai Iesu wella ei was.		

4	Daeth rai o'r arweinwyr Iddewig at Iesu i ofyn iddo ddod i iacháu'r gwas. Dyma nhw'n pledio arno i helpu'r dyn. “Mae'r dyn yma yn haeddu cael dy help di. Mae e'n caru ein pobl ni ac wedi adeiladu synagog i ni,” medden nhw. Felly dyma Iesu'n mynd gyda nhw. Doedd Iddewon fel arfer yn gwneud dim â'r milwyr Rhufeinig.	
5	Roedd Iesu bron â chyrraedd y tŷ pan anfonodd y swyddog Rhufeinig rai o'i ffrindiau i ddweud wrtho: “Arglwydd, paid trafferthu dod yma, dw i ddim yn deilwng i ti ddod i mewn i nhŷ I.	
6	Dyna pam wnes i ddim dod i dy gyfarfod di fy hun. Does ond rhaid i ti ddweud, a bydd fy ngwas yn cael ei iacháu. "	
7	"Mae swyddogion uwch fy mhen i yn rhoi gorchmynion i mi, ac mae gen innau filwyr o danaf fi. Dw i'n dweud ‘Dos’ wrth un, ac mae'n mynd; ‘Tyrd yma’ wrth un arall ac mae'n dod. Dw i'n dweud ‘Gwna hyn’ wrth fy ngwas, ac mae'n ei wneud.”	
8	Roedd Iesu wedi ei syfrdanu pan glywodd hyn.	

9	Trodd at y dyrfa oedd yn ei ddilyn, ac meddai.....	
10	“Dw i'n dweud wrthoch chi, dw i ddim wedi gweld neb o bobl Israel sydd â ffydd fel yna!”	
11	Dyma'r dynion oedd wedi eu hanfon ato yn mynd yn ôl i'r tŷ, a dyna lle roedd y gwas yn holliach!	
12		
13		

14		
15	Iesu ydy Mab Duw yn wir! Amen	
16	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible images THE WORD IN PICTURES www.freebibleimages.org
17		